OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 886 (Cy. 196)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 1.36 p.m. ar 21 Awst 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *am 5.30 p.m. ar 21 Awst 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *am 4.00 a.m. ar 22 Awst 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 22 Awst 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**).

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185) ac O.S. 2020/868 (Cy. 190).

# RHAN 2

## Diwygio'r rhestr o wledydd esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Ychwanegu Portiwgal at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt**

**2.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y lle priodol mewnosoder—

"Portiwgal".

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2**

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan, yn union cyn 4.00 a.m. ar 22 Awst 2020—

(a) oedd person ("P") yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu yn rhinwedd y ffaith iddo gyrraedd Cymru o Bortiwgal, neu ar ôl bod ym Mhortiwgal, a

(b) diwrnod olaf ynysiad P yw 22 Awst 2020 neu ddiwrnod ar ôl y diwrnod hwnnw.

(2) Nid yw ychwanegu Portiwgal at Ran 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofyniad i ynysu fel y mae'n gymwys i P, nac ar y modd y pennir diwrnod olaf ynysiad P o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4.00 a.m. ar 22 Awst 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod ym Mhortiwgal o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(4) At ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae'r cwestiwn o ran a yw P wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath i'w bennu, mewn perthynas â Phortiwgal, drwy gyfeirio at ba un a oedd Portiwgal yn wlad nad yw'n esempt pan oedd P yno ddiwethaf (ac nid drwy gyfeirio at statws Portiwgal pan fo P yn cyrraedd Cymru).

(5) Yn y rheoliad hwn, mae i "gofyniad i ynysu" yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac mae cyfeiriadau at ddiwrnod olaf ynysiad P i'w dehongli yn unol â rheoliad 12 o'r Rheoliadau hynny.

**Hepgor gwledydd o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt**

**4.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer—

"Awstria"

"Croatia"

"Trinidad a Tobago".

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 4**

**5.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 22 Awst 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 4 ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 22 Awst 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod yn y wlad honno, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

# RHAN 3

## Diwygiadau amrywiol

### Diwygiadau i reoliad 9 (gofynion ynysu: esemptiadau)

**6.** Yn rheoliad 9(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofynion ynysu: esemptiadau), yn lle "36" rhodder "38".

### Diwygiadau i reoliad 10 (gofynion ynysu: eithriadau)

**7.**—(1) Mae rheoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofynion ynysu: eithriadau) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer paragraff (4)(je) i (jg).

(3) Hepgorer paragraff (8)(b) i (e).

### Diwygiadau i Atodlen 2 (personau esempt)

**8.**—(1) Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau esempt) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 9 rhodder—

> "**9.** Arolygydd neu syrfëwr llongau, a benodwyd o dan adran 256 o Ddeddf Llongau Masnach 1995(**3**) neu gan lywodraeth meddiant Prydeinig perthnasol fel y diffinnir "relevant British possession" yn adran 313(1) o'r Ddeddf honno, pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith."

(3) Ar y diwedd mewnosoder—

> "**38.**—(1) Person sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig—
>
> (a) sy'n athletwr elît sy'n cymryd rhan mewn cystadleuaeth elît dramor,
>
> (b) sy'n darparu cymorth i athletwr elît mewn cystadleuaeth elît dramor neu fel arall yn ei hyfforddi, neu
>
> (c) sy'n gwasanaethu fel swyddog mewn cystadleuaeth elît dramor neu fel arall yn ymwneud â'i rhedeg,
>
> pan fo'r person wedi teithio i'r Deyrnas Unedig i ddychwelyd o'r gystadleuaeth elît dramor.
>
> (2) Yn y paragraff hwn—
>
> (a) ystyr "athletwr elît" yw person—
>
> (i) sy'n ennill bywoliaeth o gystadlu mewn camp,
>
> (ii) sy'n athletwr elît o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(**4**), neu
>
> (iii) nad yw'n dod o fewn is-baragraff (i) neu (ii) sy'n cymryd rhan yng nghynghrair Pencampwyr UEFA neu gynghrair Europa;

(**3**) 1995 p. 21.
(**4**) O.S. 2020/725 (Cy. 162).

(b) ystyr "cystadleuaeth elît" yw cystadleuaeth chwaraeon y mae unrhyw un neu ragor o'r cyfranogwyr yn cystadlu ynddi—

(i) i ennill bywoliaeth, neu

(ii) i gymhwyso ar gyfer y Gemau Olympaidd, y Gemau Paralympaidd neu Gemau'r Gymanwlad, neu fel rhan o'r broses ddethol ar gyfer y Gemau Olympaidd, y Gemau Paralympaidd neu Gemau'r Gymanwlad;

(c) ystyr "cystadleuaeth elît dramor" yw cystadleuaeth elît sy'n cael ei chynnal y tu allan i'r Deyrnas Unedig; ac mae person i'w drin fel pe bai wedi dychwelyd o gystadleuaeth o'r fath os yw'r person, o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â diwrnod olaf ynysiad y person, wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt at ddibenion cystadleuaeth o'r fath."

**Diwygiadau i Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig)**

**9.**—(1) Mae Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 3 rhodder—

"**3.** Dartiau—

(a) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol - Cyfres yr Haf;

(b) Betfred World Matchplay Darts;

(c) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol - Uwch-gynghrair Unibet;

(d) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol -Y Daith Ddatblygu;

(e) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol -Y Daith Her;

(f) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol -Cyfres y Menywod;

(g) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol -Pencampwriaeth y Chwaraewyr;

(h) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol -Pencampwriaeth Ieuenctid y Byd."

(3) Yn lle paragraff 10 rhodder—

"**10.** Snwcer—

(a) Pencampwriaeth Snwcer y Byd Betfred;

(b) Taith Snwcer y Byd - Meistri Ewrop;

(c) Taith Snwcer y Byd - Pencampwriaeth Agored Lloegr;

(d) Taith Snwcer y Byd - Shoot Out;

(e) Twrnamaint Snwcer Pencampwr y Pencampwyr Matchroom."

(4) Yn y testun Cymraeg, yn lle paragraff 14 rhodder—

"**14.** Bocsio—

(a) Matchroom Fight Camp - Gornest Ryngwladol Pwysau Trwm;

(b) Matchroom Fight Camp - Teitl Pwysau Trwm y Byd Cyngor Bocsio'r Byd;

(c) Matchroom Fight Camp - Teitl Pwysau Ysgafn y Byd y Menywod Sefydliad Bocsio'r Byd."

(5) Ar y diwedd mewnosoder—

"**15.** Sboncen - Twrnamaint Sboncen Agored Manceinion 2020.

**16.** Bowlio Deg - Cwpan Weber Matchroom BetVictor.

**17.** Pŵl - Twrnamaint Pŵl Cwpan Mosconi Partypoker Matchroom."

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Am 1.36 p.m. ar 21 Awst 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu Portiwgal at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor Awstria, Croatia a Trinidad a Tobago o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliadau 3 a 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliadau 2 a 4 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliadau 6 a 7 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i reoliadau 9 a 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o ganlyniad i reoliad 8 o'r Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 8 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol i Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol mewn cysylltiad â'r eithriadau i gategorïau penodol o weithwyr. Yn gyntaf mae'n ehangu'r diffiniad o arolygwr neu syrfëwr llongau i gynnwys y rheini sy'n rhan o lywodraeth

meddiant Prydeinig perthnasol. Yn ychwanegol at hynny, mae rheoliad 8 yn cynnwys esemptiad newydd i'r gofynion ynysu mewn cysylltiad ag athletwyr elît sy'n preswylio yn y DU wedi iddynt ddychwelyd o gystadleuaeth elît.

Mae rheoliad 9 o'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu digwyddiadau a gornestau eraill at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 9 hefyd yn cywiro camgymeriad a ganfyddir yn nhestun Cymraeg y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.